

9 Ebrill 2019

Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru

Annwyl Gyfaill,

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad, ar [Reoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru](#), ar 31 Hydref 2018. O ganlyniad i bryderon cenedlaethol cynyddol ynghylch rheoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal adolygiadau cychwynnol a dilynol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i helpu i ganfod maint yr heriau a wynebir a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â hwy.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd ers adolygiad cychwynnol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015–16; sef, trefniadau cenedlaethol i wella rheolaeth a pherfformiad o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a newidiadau yn y rhestr aros, gan gynnwys nifer y cleifion sydd ar y rhestr aros am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a phobl sy'n wynebu oedi.

Canfu'r Adroddiad fod byrddau iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015–16, ond mae'r cyflymder a'r effaith ar leihau'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol wedi'u gohirio yn gyfyngedig, ac mae amrywiadau sylweddol rhwng arbenigeddau a byrddau iechyd ar draws Cymru. Mae nifer cyfartalog y cleifion ar y rhestr aros am apwyntiadau dilynol wedi cynyddu 12 y cant dros y tair blynedd diwethaf, ac mae nifer y cleifion sy'n aros ddwywaith cymaint ag y dylent fod.

Oherwydd y pryderon sylweddol a godwyd yn yr adroddiad hwn, bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i'r maes hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar offthalmoleg o gofio'r effaith sylweddol y mae oedi o ran apwyntiadau i gleifion allanol yn y maes hwn yn ei chael ar gleifion, a'r risg gwirioneddol o niwed os nad oes adolygiadau rheolaidd dilynol ar gyfer cleifion. Gellir gweld copïau o drawsgrifiadau'r cyfarfodydd hyd yma ar dudalennau'r Pwyllgor:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=23266>

Mae'r dystiolaeth a glywyd hyd yma wedi codi pryderon sylweddol ynglŷn â'r dulliau ymddangosiadol gwahanol sydd gan y byrddau iechyd, a'r effaith y mae



oedi o ran yr apwyntiadau hyn yn ei chael ar gleifion. Fe'n trawyd yn arbennig gan y pryderon a godwyd gan RNIB Cymru ynghylch y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth gan y GIG a darpariaeth breifat.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael sylwadau gennych chi eich hunain, fel gweithwyr meddygol proffesiynol, ar ganfyddiadau gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a'r dystiolaeth a glywyd gan y Pwyllgor hyd yma.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

